# SL(5)442 – Cod Ymarfer ar gyfer Lles Ieir Bwyta ac Ieir Bwyta at Fridio

## Cefndir a Diben

Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn ("y Cod") o dan adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 ("y Ddeddf"). Mae'n berthnasol i bob math o Ieir Bwyta a Ieir Bwyta at Fridio y mae person yn gyfrifol amdanynt.

Roedd y Cod Ymarfer blaenorol yn adlewyrchu'r wyddoniaeth a'r ddeddfwriaeth gyfredol ar y pryd. Roedd angen adolygiad er mwyn nodi unrhyw newidiadau yn y meysydd hynny a sicrhau bod y safonau a argymhellwyd yn dal yn briodol. Mae hefyd yn disodli'r canllawiau dros dro ar gyfer ceidwaid ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol mewn perthynas â Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2010, a gyhoeddwyd yn 2011.

Diben y Cod yw sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am anifail yn ymwybodol bod dyletswydd gyfreithiol arnynt i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod anghenion lles yn cael eu diwallu. Mae'r Cod Ymarfer yn esbonio'r hyn sydd angen i chi ei wneud i gyrraedd y safon o ran gofal sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Nid yw mynd yn groes i un o ddarpariaethau'r Cod yn drosedd ynddo'i hun ond, os dygir achos yn erbyn rhywun am drosedd lles o dan y Ddeddf, caiff y Llys ystyried i ba raddau y mae wedi cydymffurfio â'r Cod wrth benderfynu a yw wedi troseddu neu wedi cyrraedd y safon ofynnol o ran gofal.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Cyhoeddir y Cod Ymarfer o dan adran 14 o'r Ddeddf, sy'n caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyhoeddi canllawiau ymarferol mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth o dan y Ddeddf. Trosglwyddwyd y pŵer i gyhoeddi canllawiau o'r Cynulliad i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn unol ag adran 16 o'r Ddeddf, mae'n rhaid cyhoeddi drafft o'r Cod, ymgynghori arno, ac ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad. Cymerwyd y camau hyn.

Mae darpariaeth drosiannol ym mharagraff 34 i Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n nodi pan fo swyddogaeth gyfatebol sy'n arferadwy gan Weinidog y Goron, bod y weithdrefn Seneddol berthnasol yn gymwys i unrhyw swyddogaeth a roddir i Weinidogion Cymru. Rhaid i Weinidog y Goron ddefnyddio'r weithdrefn negyddol, a nodir yn adran 15 o'r Ddeddf, ac felly mae'r Cod yn cael ei osod gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad negyddol; caiff y Cynulliad benderfynu bod y Cod yn cael ei ddirymu heb fod yn hwyrach na 40 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

**Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn:**

1. Ar dudalen 14 o'r fersiwn Saesneg a'r fersiwn Gymraeg o'r cod, mae'r cyfeiriad at baragraff 2(1) o Atodlen 1 i Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn nodi bod yn rhaid sicrhau bod anifeiliaid sy'n cael eu cadw mewn systemau hwsmonaeth lle nad yw eu lles yn dibynnu ar sylw

dynol mynych yn cael eu harchwilio *"o leiaf ddwywaith y dydd"*. Mewn gwirionedd, dim ond *o leiaf unwaith y dydd* y mae'r Rheoliadau'n nodi bod yn rhaid eu harchwilio. Felly, mae'r cyfeiriad hwn yn anghywir yn y cod.

2. Ar dudalen 39 o'r fersiwn Saesneg a'r fersiwn Gymraeg o'r cod, o dan y pennawd *"Systemau maes ac organig"*, cyfeirir at Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 843/2007. Fodd bynnag, ymddengys fod hyn yn anghywir; mae yna Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 843/2007 ond nid yw mewn grym mwyach.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn. Gwneir y Cod gan ddefnyddio pwerau domestig.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan y Llywodraeth.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 30 Medi 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.